# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 28 Medi 2023**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Ann Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Elin Prysor Williams.

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Walter Williams.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyngr. Linda Brown, Catrin Wager ac Einir Williams.

**2. Datgan Diddordeb**
Dim i'w ddatgan.

**3. Materion Brys**
**Gwasanaeth ailgylchu** – Nodwyd y Cyng. Bleddyn Williams fod problemau gyda'r gwasanaeth ailgylchu dal yn bodoli.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2023.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Lloches Bws Lon Newydd –**Nodwyd fod y lloches bws wedi cyrraedd y contractwr, ond nid yw'r Clerc yn gallu gael gafael ar y contractwr i holi am ddyddiad gosod.
**5.2 Llwybr Parc Meurig –**Kehoe Countryside wedi dod yn ôl hefo pris, y Clerc i gael 2 pris arall. Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, y clerc wedi danfon les ddrafft allan i'r grwp ffocws – disgwyl am sylwadau.
**5.3 Oriau agor Llys Dafydd a Tan Twr** – penderfynwyd adolygu'r oriau agor yn Gwanwyn 2024.
**5.4 CCTV Stryd Fawr Bethesda –**Y Cyng. Rheinallt Puw wedi bod mewn cysylltiad gyda Cyngor Gwynedd ynglŷn a gosod camerau yn meysydd parcio Cae Star a Pantdreiniog. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd wedi derbyn dyfynbris am y camerau ychwanegol,  ac wedi danfon nhw ymlaen i'r uwch reolwyr – ar y gweill.

**5.5 Llwybr Ffordd y Mynydd i Ffordd Tanybwlch** – Nodwyd fod cyflwr y llwybr yn warthus, ac fod y Cyng. Paul Rowlinson wedi danfon ebost at y swyddog llwybrau, ac eu fod wedi cytuno y bydden nhw'n edrych am brisiau gan contractwyr i wneud y gwaith – ar y gweill.
**5.6 Dewi Davies, Rheolwr Cymuned Bethesda, Heddlu Gogledd Cymru -** Nodwyd y bydd Dewi Davies, Rheolwr Cymuned Bethesda yn gobeithio mynychu'r cyfarfod nesaf. Y Clerc wedi danfon y dyddiad ymlaen, nodwyd fod Dewi yn disgwyl am ei rota.
**5.7 Mabwysiadwy dogfennau -**

- Rheolau Sefydlog – y Clerc i addasu'r ddogfen ac ei ail gyflwyno yn cyfarfod mis Hydref.
- Rheoliadau Ariannol – y Clerc i gynnwys rhain ar agenda cyfarfod mis Hydref.

**6. Torri Gwair**
Y Clerc wedi cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd dydd Llun, 3ydd o Orffennaf i drafod cytundeb newydd o gasglu'r gwair ar toriad cyntaf y flwyddyn yn unig, penderfynwyd bydd y Clerc yn holi am gytundeb 3 blynedd. Nodwyd fod y Cyng. Rheinallt Puw wedi holi os oes modd talu am toriadau ychwanegol ar ochr yr A5 – yr eitem i'w ohirio tan cyfarfod mis Hydref.

**7. Maes Parcio Gerlan**
Nodwyd fod y Clerc wedi derbyn yr ail bris. Penderfynwyd bydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod gyda'r perchennog ar y safle i drafod pryniant y tir.

**8. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Medi 2023'
**8.1 Helen Williams – Cais i osod lluniau yn y Gorffwysfan –** Nodwyd fod y lluniau mewn sylw yn swyddfa Partneriaeth Ogwen ar hyn o bryd – caniatawyd i rhoi y lluniau i fyny, y Clerc i drefnu.
**8.2 Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Comisiwn Ffiniau i Gymru – Holiadur – Gwersi a ddysgwyd –** y Cynghorwyr i gwblhau'r holiadur fel unigolion.
**8.3 Un Llais Cymru – Digwyddiad ar y cyd rhwng Un Llais Cymru/SLCC –** os yw'r aelodau yn dymuno mynychu, yno rhoi gwybod i'r Clerc.
**8.4 Cyngor Gwynedd – Holiadur Cymunedau –** trafodwyd y cynnwys a a penderfynwyd bydd y Clerc yn ymateb ar rhan y Cyngor.
**8.5**. **Caroline Jones – Maes parcio wrth y Sior, Carneddi – cais i ail beintio y llinellau –** Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd os oes modd ail beintio'r llinellau.
**8.6 Ymgynghoriad ar Raddfeydd Ffioedd Archwilydd Mewnol 2024-25 –** Y Clerc i edrych i fewn i'r mater.
**8.7 Un Llais Cymru – Ymgynghoriad cyhoeddus Ombwdsman Cymru ar: Ein Cynllun Cydraddoldeb 2023-26 –** Cytunwyd y bydd yr aelodau yn ymateb fel unigolion.
**8.8 Jenny Jones – Japanese Knotweed wrth Bont Twr –** Penderfynwyd y bydd y Clerc yn danfon llythyr at perchennog y tir, sef Zip World.
**8.9 Cyngor Cymuned Llanllechid – Llythyr Tai Fforddiadwy –** Roedd barn cymysg ymysg yr aelodau, yn dilyn pleidlais, penderfynwyd cefnogi'r llythyr.
**8.10 Kirsty Roberts/Andrew Gregson – Ymholiad PT 2309 2798 – Parcio Allt Penybryn a Bryn Caseg –** Penderfynwyd bydd y Clerc yn holi y Cyng. Einir Williams am y ceisiadau ym Mhryn Caseg, ac yn dilyn trafodaeth, mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cais am linellau melyn yn ngwaelod Allt Penybryn.
**8.11 Llechi Cymru – Gweithdy ar lein –**wedi gael ei ganslo.
**8.12 Chris Roberts, Gwyrdd Ni** – Cyfarfod Cymunedol 2 Hydref 2023 – gwahoddiad i bawb fynychu.

**8.13 Paul Rowlinson – Cyfyngiadau Parcio Ffordd Llwyn Bleddyn –** aelodau ward Rachub i gyfarfod ar y safle – ailgyflwyno'r eitem mis nesaf.

**9. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**

**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0207/13/CR**<br>Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill |
| **C23/0547/13/LL**<br>Spar Stores, High Street, Bethesda, LL57 3AR | Creu gofod manwerthu a chanolfan dreftadaeth gan ail-ddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0596/13/DT**<br>11 Ffordd Pant, Bethesda | Dymchwel estyniad blaen presennol a lolfa haul yn y cefn<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau |
| **C23/0588/13/DT**<br>7 Rallt Uchaf Gerlan, Bethesda | Estyniad unllawr iu flaen yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau |

**10. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Dylan Jones | Blodau B&Q | £79.75 |
| Opus Energy | Trydan Llys Dafydd Gorffennaf | £100.17 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan Awst | £57.08 |
| Scottish Power | Trydan Gorffwysfan Ebrill – Mehefin | £207.50 |
| John Wyn Jones | Cyflog Awst | £364.00 |
| CThEM | TWE Awst | £91.00 |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | Ysgoloriaeth | £150.00 |
| Ysgol Llanllechid | Cyfraniad at taith i'r Eisteddfod | £500.00 |
| Cyngor Gwynedd | Archwiliad Mewnol | £306.00 |

| | | |
|---|---|---|
| John Wyn Jones | Cyflog Medi | £364.00 |
| CThEM | TWE Medi | £91.00 |
| Macemain & Amstad | Lloches Bws Lon Newydd | £4626.00 |
| Opus Energy | Trydan Llys Dafydd Awst | £42.45 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan Medi | £34.49 |
| Colin Jackson | Cynnal a chadw llwybrau | £2290.00 |

**Noson Wobryuo Ysgol Dyffryn Ogwen** – y Cyng. Walter Williams a Donna Watts wedi mynychu ar ran y Cyngor. Llongyfarchiadau mawr i'r enillydd, Cian Rhys.